

# Aseiad Effaith Naratif ar gyfer y JFS

Ionawr 2022



Department  
for Environment  
Food & Rural Affairs



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



The Scottish  
Government  
Riaghaltas na h-Alba



Department of  
**Agriculture, Environment  
and Rural Affairs**

[www.daera-ni.gov.uk](http://www.daera-ni.gov.uk)



© Hawlfraint y Goron 2022

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0. I weld y drwydded, ewch i [www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/](http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/)

Os ydym wedi nodi bod hawlfraint unrhyw wybodaeth yn eiddo i drydydd parti, bydd angen ichi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yma: <https://consult.defra.gov.uk/sustainability-devolution-and-legislation-team/jfs> .

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y cyhoeddiad hwn, cysylltwch â: [jfs@defra.gov.uk](mailto:jfs@defra.gov.uk)

ISBN 978-1-5286-3132-7

E02710007 01/22

<b>Teitl:</b> Asesiad Effaith Naratif ar gyfer y Cyd-ddatganiad ar Bysgodfeydd <b>Rhif Asesiad Effaith:</b> Ddim yn berthnasol <b>Rhif Cyfeirnod y Pwyllgor Polisi Rheoleiddiol (RPC):</b> Ddim yn berthnasol <b>Adran neu asiantaeth arweiniol:</b> Asesiad effaith ar y cyd: Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (Gogledd Iwerddon).	<b>(Asesiad Effaith)</b>			
	Dyddiad: Ionawr 2022			
	<b>Cam:</b> Ddim yn berthnasol			
	<b>Ffynhonnell y ymyriad:</b> Domestig			
	<b>Math o fesur:</b> Ddim yn berthnasol			
<b>Cyswilt ar gyfer ymholiadau:</b> Samantha King				
<b>Crynodeb: Yr Ymyriad a'r Opsiynau</b>				
<b>Barn yr RPC:</b> Statws Barn yr RPC				

**Cost yr Opsiwn a Ffeirir (neu'r opsiwn mwyaf tebygol) (ym mhrisiau 2020/2021)**

Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol Net Presennol £ miliwn	Gwerth Net Presennol Busnes £ miliwn	Cost net i fusnes bob blwyddyn £ miliwn	Statws Targed yr Effaith ar Fusnes Darpariaeth gymwys
--	---	--	--

**Pa broblem sy'n cael ei hystyried? Pam mae angen i'r Llywodraeth weithredu neu ymyrryd?**

Mae Deddf Pysgodfeydd 2020 (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau polisi pysgodfeydd y DU lunio a chyhoeddi Cyd-ddatganiad ar Bysgodfeydd (JFS) o fewn 24 mis iddi gael Cydsyniad Brenhinol. Mae'r Ddeddf yn amlinellu'r amcanion ar gyfer pysgodfeydd, sy'n pennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer rheoli pysgodfeydd ledled y DU yn y dyfodol. Gyda'i gilydd, mae'r amcanion hyn yn nodi'r egwyddorion craidd y dylid eu dilyn er mwyn rheoli pysgodfeydd mewn modd llwyddiannus a chynaliadwy. Mae'r JFS yn amlinellu ein polisiâu ar gyfer cyflawni neu gyfrannu at gyflawni'r amcanion hyn. Felly, bydd yn chwarae rhan bwysig wrth arwain y gwaith o lunio polisiâu a gwneud penderfyniadau yn y dyfodol ar lefel y DU ac o fewn pob awdurdod polisi pysgodfeydd unigol.

**Beth yw amcanion polisi'r camau gweithredu neu'r ymyrryd a'r effeithiau arfaethedig?**

Mae'r JFS yn ceisio sicrhau bod pysgodfeydd yn y DU yn cael eu rheoli mewn modd llwyddiannus a chynaliadwy. Wrth gydbwysu'r broses o roi'r amcanion ar gyfer pysgodfeydd ar waith, bydd y JFS yn bodloni gofynion y Ddeddf ac yn cefnogi diwydiant pysgota bywiog, proffidiol a chynaliadwy, sy'n seiliedig ar amgylchedd morol iach. Ei nod yw diogelu a (lle bo angen) adfer ein stociau pysgod, lleihau effeithiau pysgota ar yr amgylchedd, a chefnogi diwydiant pysgota modern, cadarn ac amgylcheddol gyfrifol a fydd yn ceisio lliniaru'r effaith mae'n ei chael ar yr hinsawdd ac yn ymaddasu lle bo modd. Bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn paratoi ac yn cyhoeddi adroddiad, bob tair blynedd, ar y graddau y mae'r polisiâu yn y JFS wedi cyflawni, neu wedi cyfrannu at gyflawni'r amcanion ar gyfer pysgodfeydd. Bydd y JFS yn cael ei adolygu o fewn chwe blynedd iddo gael ei gyhoeddi.

**Pa opsiynau polisi sydd wedi cael eu hystyried, gan gynnwys unrhyw opsiynau yn lle rheoleiddio? Rhowch gyfiawnhad dros yr opsiwn a ffeirir (mae rhagor o fanylion yn y Sail Dystiolaeth)**

- Opsiwn 1: Gwneud dim (achos sylfaenol). Mae awdurdodau polisi pysgodfeydd unigol yn parhau i reoleiddio pysgodfeydd yn annibynnol ac yn methu bodloni gofyniad y Ddeddf i gynhyrchu JFS.
- Opsiwn 2: Cynhyrchu a chyhoeddi JFS, gan amlinellu'r polisiâu ar gyfer cyflawni, neu gyfrannu at gyflawni'r amcanion ar gyfer pysgodfeydd. (yr opsiwn a Ffeirir)

**A fydd y polisi'n cael ei adolygu?** Bydd yn cael ei adolygu. **Os yw hynny'n berthnasol, nodwch y dyddiad ar gyfer adolygu:** -/2028

A yw'r mesur hwn yn debygol o effeithio ar fasnach a buddsoddiadau rhyngwladol?	Nac ydy			
A oes unrhyw rhai o'r sefydliadau hyn o fewn y cwmpas?	<b>Micro</b> Oes	<b>Bach</b> Oes	<b>Canolig</b> Oes	<b>Mawr</b> Oes
Beth yw'r newid cyfwerth â CO <sub>2</sub> mewn allyriadau nwyon tŷ gwyrdd? (miliwn tunnell cyfwerth â CO <sub>2</sub> )	<b>Wedi'i fasnachu:</b> Ddim yn perthnasol		<b>Heb ei fasnachu:</b> Ddim yn berthnasol	

**Rwyf wedi darllen yr Asesiad Effaith ac rwy'n fodlon, o ystyried y dystiolaeth sydd ar gael, ei fod yn ddisgrifiad rhesymol o gostau, manteision ac effaith debygol y prif opsiynau.**

Llofnod yr unigolyn cyfrifol:

Lesley Griffiths MS Dyddiad: 20/12/2021

# Crynodeb: Dadansoddi a Tystiolaeth

# Opsiwn Polisi 2

## Disgrifiad:

### Asesiad Effaith Naratif

Blwyddyn Sylfaen Prisiau: Ddim yn berthnasol	Blwyddyn Sylfaen Gwerth Presennol 2020	Cyfnod Amser Blynyddoedd	<b>Manteision Net (Gwerth Presennol (£ miliynau))</b>		
			<b>Isel: Dewisol</b>	<b>Uchel: Dewisol</b>	<b>Amcangyfrif Gorau:</b>

<b>COSTAU (£ miliwn)</b>	<b>Cyfanswm y Costau Pontio (Pris Cyson) Blynyddoedd</b>	<b>Cyfartaledd Blynyddol (heb Gostau Pontio) (Pris Cyson)</b>	<b>Cyfanswm y Costau (Gwerth Presennol)</b>
<b>Isel</b>	Heb ei Feintioli	Heb ei Feintioli	<b>Heb ei Feintioli</b>
<b>Uchel:</b>	Heb ei Feintioli	Heb ei Feintioli	<b>Heb ei Feintioli</b>
<b>Amcangyfrif Gorau</b>	Heb ei Feintioli	Heb ei Feintioli	<b>Heb ei Feintioli</b>

### Maint y prif gostau ariannol i'r 'prif grwpiau yr effeithir arnynt' a disgrifiad o'r costau hynny

Mae'r JFS drafft wedi cael ei ddatblygu gan DEFRA a'r Gweinyddiaethau datganoledig. Mae'n cynnwys polisiâu strategol presennol a newydd, ac ymrwymadau i ddatblygu polisiâu yn y dyfodol sy'n ystyried yr amcanion ar gyfer pysgodfeydd. Rhagwelir, o ystyried natur strategol y JFS drafft, na fydd yn cael unrhyw effaith ar fusnes ar hyn o bryd. Ar ôl i'r JFS gael ei gyhoeddi, lle mae angen rhagor o fesurau manwl i fodloni'r amcanion ar gyfer pysgodfeydd a amlinellir yn y Ddeddf, bydd asesiadau effaith llawn o'r mesurau hyn yn cael eu cynhyrchu gan yr awdurdod polisi pysgodfeydd perthnasol.

### Costau allweddol eraill nad ydynt yn ariannol i'r 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

Os bydd is-ddeddfwriaeth yn y dyfodol, mae'n bosibl y gallai fod costau ymgyfarwyddo i'r busnes, a chostau amser sy'n gysylltiedig â gofynion ychwanegol sy'n deillio o unrhyw reoliadau newydd. Efallai y bydd costau ychwanegol i'r Llywodraeth sy'n gysylltiedig â gweithgareddau monitro a gorfodi sy'n gysylltiedig ag unrhyw reoliadau newydd.

<b>MANTEISION (£ miliwn)</b>	<b>Cyfanswm y Costau Pontio (Pris Cyson) Blynyddoedd</b>	<b>Cyfartaledd Blynyddol (heb Gostau Pontio) (Pris Cyson)</b>	<b>Cyfanswm y Manteision (Gwerth Presennol)</b>
<b>Canolig</b>	Heb ei Feintioli	Heb ei Feintioli	<b>Heb ei Feintioli</b>
<b>Uchel:</b>	Heb ei Feintioli	Heb ei Feintioli	<b>Heb ei Feintioli</b>
<b>Amcangyfrif Gorau</b>	Heb ei Feintioli	Heb ei Feintioli	<b>Heb ei Feintioli</b>

### Maint y manteision ariannol ar gyfer y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt' a disgrifiad o'r manteision hynny

Fel gyda chostau, nid oes unrhyw fanteision uniongyrchol yn gysylltiedig â'r polisiâu lefel uchel yn y JFS drafft. Mae sawl polisi yn y JFS sy'n debygol o greu manteision i fusnesau a'r amgylchedd morol a'r amgylchedd dyfrol ehangach yn ystod y cam gweithredu, ond dim ond drwy asesiadau effaith llawn y pryd hynny y bydd modd amcangyfrif y rhain, ochr yn ochr ag unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir gan yr awdurdod polisi pysgodfeydd perthnasol.

### Manteision allweddol eraill nad ydynt yn cael ariannol ar gyfer y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

Disgwylir y byddai manteision i fusnesau, gan mai nod nifer o'r polisiâu yn y JFS fydd cynnal ac adfer stociau pysgod i lefelau cynaliadwy a gwella'r amgylchedd morol a'r amgylchedd dyfrol. Dylai'r rhain sicrhau manteision ar draws cadwyn gyflenwi gyfan pysgodfeydd a'r gymdeithas ehangach.

Rhagdybiaethau/materion sensitif/risgiau allweddol

Cyfradd y disgownt (%)

3.5

Ddim yn berthnasol. Nid yw'r ddogfen hon yn darparu dadansoddiad meintiol o effeithiau'r JFS.

### ASESIAD BUSNES (Opsiwn 1)

<b>Effaith uniongyrchol ar fusnes (Cyfartaledd Blynyddol) £ miliwn:</b>			<b>Sgôr ar gyfer y Targed Effaith Busnes (darpariaethau cymwys yn unig) £ miliwn:</b>
<b>Costau:</b>	<b>Manteision:</b>	<b>Net:</b>	
			Ddim Yn Berthnasol

# Adran 1: Cyflwyniad

## Y Cyd-ddatganiad ar Bysgodfeydd: Pwrpas a Chefndir

Mae'r Cyd-ddatganiad ar Bysgodfeydd (JFS) yn rhan o Fframwaith ehangach y DU ar gyfer Rheoli a Chefnogi Pysgodfeydd (y Fframwaith Pysgodfeydd). Mae rheoli pysgodfeydd yn y DU wedi cael ei ddatganoli i raddau helaeth, ac mae'r Fframwaith yn nodi meysydd lle bydd dull ar y cyd o reoli pysgodfeydd ledled y DU yn cael ei ddilyn, yn ogystal â'r ddeddfwriaeth, y polisïau a'r egwyddorion cydweithio a ddefnyddir ledled y DU i'w gyflawni. Mae'r Fframwaith yn cynnwys Deddf Pysgodfeydd 2020 (y Ddeddf) a'r offerynnau statudol cysylltiedig, cyfraith yr UE a ddargedwir, y JFS, Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar y Fframwaith ar gyfer Rheoli a Chefnogi Pysgodfeydd (y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Fframwaith Pysgodfeydd neu'r FFMoU).

Mae'r Ddeddf yn amlinellu'r amcanion ar gyfer pysgodfeydd, sy'n pennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer rheoli pysgodfeydd ledled y DU yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu y dylai'r awdurdodau polisi pysgodfeydd baratoi JFS sy'n cynnwys y polisïau ar gyfer cyflawni neu gyfrannu at gyflawni'r amcanion hyn, ac sy'n cynnwys datganiad ar y ffordd mae'r awdurdodau'n bwriadu defnyddio Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd er mwyn cyflawni neu gyfrannu at gyflawni'r amcanion. Ategir hyn gan elfennau eraill o'r Fframwaith wrth sefydlu fframwaith polisi i sicrhau bod pysgodfeydd yn y DU yn cael eu rheoli mewn modd llwyddiannus a chynaliadwy.

O ystyried y ffaith bod y gwaith o reoli pysgodfeydd yn y DU wedi cael ei ddatganoli i raddau helaeth, bydd y polisïau a'r ymrwymadau yn y JFS yn cael eu datblygu a'u gweithredu gan yr awdurdod polisi pysgodfeydd perthnasol, ac eithrio pan fydd hyn yn ymwneud â chymhwysedd a gedwir yn ôl, ac os felly Llywodraeth y DU fydd yn gyfrifol.

## Y dull o gynnal Asesiadau Effaith ar gyfer y JFS

Wrth gynhyrchu Asesiad Effaith ar gyfer y JFS rydym wedi cael ein harwain gan bolisïau perthnasol pob un o'r awdurdodau polisi pysgodfeydd (Gweler Adran 3 am fanylion dull gweithredu pob awdurdod polisi pysgodfeydd).

Mae'r JFS yn cynnwys cyfuniad o bolisïau strategol presennol a newydd, yn ogystal ag ymrwymadau i ddatblygu polisïau yn y dyfodol. Gan fod y JFS yn strategol, nid yw'r polisïau yn y JFS yn arwain at effeithiau mesuradwy uniongyrchol ar yr adeg hon.

Gan fod y gwaith o reoli pysgodfeydd wedi cael ei ddatganoli i raddau helaeth, bydd yr awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol yn gweithredu polisïau'r JFS yn unol â'r setliad datganoledig. Gall hyn gynnwys awdurdodau yn gweithio gydag awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol eraill fel yr ystyrir yn briodol. Penderfynir a fydd angen asesiadau effaith wrth ddatblygu'r polisïau yn ystod y cam hwn.

O ystyried hyn, bydd yr awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol yn datblygu asesiad o effeithiau polisïau unigol, yn unol â phrosesau asesu unigol pob awdurdod pysgodfeydd cenedlaethol, wrth i'r polisïau gael eu datblygu ymhellach. Mae'r Asesiad Effaith naratif hwn yn disgrifio'r effeithiau a ragwelir o ganlyniad i'r polisïau o fewn y JFS drafft, ac yn disgrifio pryd y bydd effeithiau gweithredu polisïau'n cael eu nodi a'u hasesu.

Mae'r dogfen wedi cael ei strwythuro fel a ganlyn:

**Mae Adran 2** yn nodi'r effeithiau a ragwelir a'r cynlluniau ar gyfer Asesiadau Effaith.

**Mae Adran 3** yn amlinellu arferion a phrosesau asesu gofynnol yr awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol;

**Mae Adran 4** yn disgrifio'r mecanweithiau llywodraethu a gwerthuso allweddol ar gyfer adolygu'r JFS.

## **Adran 2: Polisiâu lle y rhagwelir effeithiau ar bob Awdurdod Polisi Pysgodfeydd**

Mae'r adran hon yn trafod y polisiâu a'r ymrwymïadau yn y JFS, yn crynhoi'r prif effeithiau a ragwelir a'r grwpiau yr effeithir arnynt ar gyfer pob awdurdod polisi pysgodfeydd a, lle y bo hynny'n berthnasol, yn nodi cynlluniau ar gyfer Asesiadau Effaith.

### **Polisiâu a'r effeithiau cysylltiedig**

Mae Adran **4.2.1 Cyfleoedd Pysgota** yn amlinellu sut mae cyfleoedd pysgota yn cael eu pennu, eu dosrannu a'u dosbarthu, a sut bydd yr amcanion ar gyfer pysgodfeydd yn cael eu hystyried yn ystod pob cam. Mae hyn yn cynnwys ymrwymïadau i ddarparu tryloywder ynghylch y dulliau dan sylw drwy sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys mewn rheolau rheoli cwtâu sydd ar gael i'r cyhoedd. Disgwylir y bydd hyn yn cyfrannu at ragor o dryloywder wrth ddosrannu a dosbarthu cwtâu ac yn galluogi rhanddeiliaid i gymryd rhan fwy yn y gwaith o ddatblygu polisiâu. Pan fydd polisiâu presennol yn parhau, ni fydd asesiad newydd o effeithiau. Fodd bynnag, os bydd yr awdurdod polisi pysgodfeydd perthnasol yn adolygu neu'n datblygu dulliau newydd o ddosbarthu cwtâu pysgota, bydd y cynnig yn cael ei brofi'n drylwyr, gan gynnwys drwy ymgynghori lle bo angen yn unol â gweithdrefnau'r awdurdod polisi pysgodfeydd unigol, i sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniad polisi arfaethedig ac yn cydymffurfio â'r holl bolisiâu trawsbynciol a dyletswyddau statudol, gan gynnwys gweithdrefnau ar gyfer asesu effeithiau. Bydd awdurdodau polisi pysgodfeydd hefyd yn profi unrhyw newidiadau arfaethedig i bolisiâu yn erbyn gofynion y rheoliadau perthnasol fel sy'n briodol.

Mae Adran 4.2.1 hefyd yn cynnwys ymrwymïad i sicrhau bod stociau yn ein dyfroedd yn cael eu defnyddio mewn modd cynaliadwy, a'n bod yn cydweithredu â gwledydd arfordirol cyfagos er mwyn sicrhau bod stociau pysgod a rennir yn cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy. Bydd dull y DU o drafod â'n partneriaid rhyngwladol yn cael ei lywio gan yr amcanion ar gyfer pysgodfeydd wrth inni geisio pysgota mewn modd cynaliadwy, a rhwymedigaethau rhyngwladol fel gofynion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr (UNCLOS), er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer fflyd y DU. Bydd effaith y polisiâu hyn yn cael ei monitro a'i hasesu'n barhaus, a bydd yn cael ei hadlewyrchu yn ein trafodaethau dwyochrog ac amlochrog.

Mae Adran **4.2.2 stociau heb gwota** yn amlinellu cynlluniau i flaenoriaethu'r gwaith o ddatblygu dulliau rheoli ar gyfer stociau heb gwota. Mae effaith darparu fframweithiau ar gyfer rhywogaethau neu ardaloedd daearyddol drwy'r dulliau hyn yn ansicr ar hyn o bryd, ond bydd yn cael ei hadolygu. Lle bo hynny'n briodol, bydd yr awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol yn cydweithredu ar broses asesu effaith ar gyfer y DU gyfan ond, o ystyried natur unigryw stociau lleol a'r mesurau rheoli mae debygol y bydd eu hangen, mae'n bosibl y bydd cynlluniau i ddatblygu dulliau rheoli ar gyfer y tymor hwy yn cael eu datblygu gan awdurodau pysgodfeydd cenedlaethol. Bydd yr holl gynigion yn cael eu profi'n drylwyr, gan gynnwys drwy ymgynghori lle bo angen yn unol â gweithdrefnau'r awdurdod polisi pysgodfeydd unigol, i sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniad polisi arfaethedig ac yn cydymffurfio â'r holl bolisiâu trawsbynciol a dyletswyddau statudol, gan gynnwys gweithdrefnau asesu effaith. Bydd awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol hefyd yn profi unrhyw newidiadau arfaethedig i bolisiâu yn erbyn gofynion y rheoliadau perthnasol fel sy'n briodol.

Mae Adran 4.2.3 **Ymgysylltu Rhyngwladol Ehangach** yn ymrwymo'r DU i gymryd rhan weithredol mewn fforymau rhyngwladol i hyrwyddo safonau uchel ar gyfer rheoli pysgodfeydd gyda phartneriaid byd-eang, a rhannu'r arferion gorau ar gyfer rheoleiddio gweithgareddau pysgota yn effeithiol ar y môr mawr, yn unol â'r amcanion ar gyfer pysgodfeydd. Gallai hyn arwain at hyrwyddo'r defnydd cynaliadwy o stociau, diogelu stociau, a hwyluso cydweithredu rhyngwladol i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Nid ydym yn cynnig paratoi unrhyw asesiadau o'r effaith mewn perthynas â'r polisi hwn ar hyn o bryd.

Mae Adran 4.2.4 **Capasiti Pysgota** yn ailddatgan ein hymrwymiad i gydbwysedd priodol wrth gynnal hyfywedd economaidd ac iechyd stoc, fel rhan o gyflawni'r amcan cynaliadwyedd. Rhagwelir y bydd hyn yn parhau i gael effaith gadarnhaol o ran sicrhau bod lefelau pysgota'n parhau i fod yn gynaliadwy. Mae'r polisi o beidio â dyrannu cyllid cyhoeddus ar gyfer cychod pysgota newydd, lle mae hyn yn cynyddu capasiti pysgota y tu hwnt i lefelau cynaliadwy, eisoes wedi'i sefydlu. Felly, yn absenoldeb polisi newydd yn y maes hwn, nid ydym yn cynnig paratoi unrhyw asesiadau o'r effaith mewn perthynas â pharhau â'r polisi presennol hwn.

Mae Adran 4.2.5 **Hawl i bysgota yn nyfroedd y DU** yn egluro ymhellach ein hymrwymiad i'r 'amcan mynediad cyfartal'. O ystyried bod hyn yn codio a pharhau â'r arfer presennol, ac na chynigir unrhyw bolisiau newydd, nid ydym yn bwriadu paratoi unrhyw asesiadau o'r effaith

Yn adran 4.2.6 **Pysgota Anghyfreithlon, heb ei Gofnodi a heb ei Reoleiddio**, mae'r JFS drafft yn cynnwys ymrwymadau i'r awdurdodau polisi pysgodfeydd fynd i'r afael â physgota anghyfreithlon, heb ei gofnodi a heb ei reoleiddio. Disgwylir i ymdrechion i fynd i'r afael â physgota o'r fath fynd i'r afael â'i effeithiau negyddol ar yr amgylchedd morol ac ar fioamrywiaeth. Yn ogystal, bydd parhau i atal cynhyrchion a ddelir drwy bysgota anghyfreithlon, heb ei gofnodi a heb ei reoleiddio rhag cael eu mewnfurio'n parhau i fod o fudd cadarnhaol i ddiwydiant pysgota'r DU, gan y bydd yn atal pysgod a ddelir yn y ffordd hon rhag cyrraedd marchnadoedd domestig a marchnadoedd byd-eang. Fel rhan o'r ymrwymadau hyn, bydd strategaeth ar gyfer y DU ar bysgota anghyfreithlon, heb ei gofnodi a heb ei reoleiddio hefyd yn cael ei chynhyrchu, a bydd effeithiau unrhyw bolisiau newydd yn y strategaeth yn cael eu hasesu wrth iddi gael ei datblygu. Bydd pob cynnig yn cael ei brofi'n drylwyr, gan gynnwys drwy ymgynghori lle bo angen yn unol â gweithdrefnau'r awdurdod polisi pysgodfeydd unigol, i sicrhau ei fod yn cyflawni'r canlyniad polisi arfaethedig ac yn cydymffurfio â'r holl bolisiau trawsbynciol a dyletswyddau statudol, gan gynnwys gweithdrefnau asesu effaith. Bydd awdurdodau polisi pysgodfeydd hefyd yn profi unrhyw newid arfaethedig i bolisiau yn erbyn gofynion y rheoliadau perthnasol fel sy'n briodol.

Mae Adran 4.2.7 **Lleihau Sgil-ddalfeydd ac Osgoi a Dal Rhywogaethau Sensitif** yn rhwymo awdurdodau polisi pysgodfeydd i weithio gyda rhanddeiliaid i leihau dalfeydd diangen a gwaredu pysgod yn wastraffus. Mae'r awdurdodau polisi pysgodfeydd eisoes wedi ymrwymo i leihau sgil-ddalfeydd, o ystyried yr effaith gadarnhaol y bydd y gostyngiad hwn yn ei chael ar yr ecosystem forol ac ar iechyd stociau. Ar yr adeg hon, bydd y Rhwymedigaeth Glanio yn parhau i fod yn gymwys ym mhob awdurdod polisi pysgodfeydd i ddiogelu iechyd stociau pysgod a rhoi sicrwydd i'r diwydiant. O ganlyniad i parhau â'r polisi hwn, nid oes unrhyw effaith uniongyrchol newydd ar fusnes. Fodd bynnag, bydd unrhyw bolisi yn y dyfodol yn cael ei asesu fel y bo'n briodol. Bydd yr holl gynigion newydd yn cael eu profi'n drylwyr, gan gynnwys drwy ymgynghori lle bo angen yn unol â gweithdrefnau'r awdurdod polisi pysgodfeydd unigol, i sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniad polisi arfaethedig ac yn cydymffurfio â'r holl bolisiau trawsbynciol a dyletswyddau statudol, gan gynnwys gweithdrefnau asesu effaith. Bydd awdurdodau polisi pysgodfeydd hefyd yn profi unrhyw newidiadau arfaethedig i bolisi yn erbyn gofynion y rheoliadau perthnasol fel sy'n briodol.

Mae Adran **4.2.8 Dadleoli** yn cyflwyno ymrwymiad polisi parhaus i weithio gyda defnyddwyr y môr i nodi a mynd i'r afael â phroblemau dadleoli sy'n deillio o fesurau rheoli a defnyddiau gofodol eraill, gan gynnwys ffermydd gwynt ar y môr. Gall canlyniadau mesurau a gyflwynir yn absenoldeb tystiolaeth, neu gamau nad ydynt o reidrwydd yn targedu'r broblem, arwain at ragor o darfu ar ymddygiad pysgota, a all gael effeithiau canlyniadol ar yr amgylchedd morol, pysgotwyr ac ar sectorau morol eraill. Mae'r polisi hwn yn ceisio osgoi neu liniaru effeithiau negyddol ar bob defnyddiwr y môr yr effeithir arno gan ddadleoli, wrth sicrhau hefyd nad yw cynaliadwyedd amgylcheddol yn cael ei beryglu. Bydd effeithiau'r polisi'n cael eu monitro drwy ymgysylltu â defnyddwyr y môr sy'n gweithio ar broblemau dadleoli ac yn mynd i'r afael â nhw. Bydd yr holl gynigion newydd yn cael eu profi'n drylwyr, gan gynnwys drwy ymgynghori lle bo angen yn unol â gweithdrefnau'r awdurdod polisi pysgodfeydd unigol, i sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniad polisi arfaethedig ac yn cydymffurfio â'r holl bolisïau trawsbynciol a dyletswyddau statudol, gan gynnwys gweithdrefnau asesu effaith. Bydd awdurdodau polisi pysgodfeydd hefyd yn profi unrhyw newidiadau arfaethedig i bolisïau yn erbyn gofynion y rheoliadau perthnasol fel sy'n briodol.

Mae Adran **4.2.9 Cynllunio Gofodol Morol** yn amlinellu sut mae Datganiad Polisi Morol y DU (UKMPS), ynghyd â'r cynlluniau morol, yn darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn caniatáu i weithgareddau yn yr ardal forol gael eu rheoli mewn ffordd sy'n diogelu'r amgylchedd morol, wrth gefnogi datblygu cynaliadwy. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd morol ac ar ecosystemau morol. Mae'r UKMPS a'r cynlluniau morol wedi bod yn destun prosesau asesu presennol, a bydd asesiadau'n cael eu diweddarau fel sy'n briodol yn dilyn adolygiad. Mae Arfarniad Cynaliadwyedd ac Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cael eu paratoi ar gyfer pob cynllun morol yn ystod y broses ddrafftio, ac mae'r fersiynau terfynol o'r rhain yn cael eu cwblhau ar yr un pryd â'r cynlluniau morol. Mae adolygiad ffurfiol o effaith ac effeithiolrwydd pob cynllun morol a fabwysiadwyd yn cael ei gynnal bob tair blynedd o'r dyddiad y cafodd ei fabwysiadu, gyda phenderfyniad yn cael ei wneud (yn seiliedig ar ganfyddiadau'r adolygiad hwnnw) ynghylch a ddylid diwygio neu ddisodli'r cynllun morol hwnnw.

Yn adran **4.2.10 Ardaloedd Morol Gwarchodedig** mae'r awdurdodau polisi pysgodfeydd yn ymrwmo i barhau i ddatblygu'r rhwydwaith o safleoedd gwarchodedig yn y môr, i ddiogelu cynefinoedd a rhywogaethau penodol sydd o bwysigrwydd cenedlaethol neu ryngwladol. Yn y safleoedd hyn, bydd pysgota'n cael ei reoli, a bydd swyddogaethau'n cael eu harfer, er mwyn galluogi Ardaloedd Morol Gwarchodedig i gyflawni eu hamcanion cadwraeth. Mae pob awdurdod polisi pysgodfeydd yn gyfrifol am ddynodi Ardaloedd Morol Gwarchodedig o fewn eu gwahanol ddyfroedd. Mae asesiad o'r effaith economaidd-gymdeithasol yn rhan o'r broses ddynodi, sy'n ystyried yr effaith y gallai dynodi'r safle ei chael ar bob defnyddiwr. Byddai cynnig i ddynodi ardal hefyd yn cael ei ystyried i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â pholisïau trawsbynciol a dyletswyddau statudol pob awdurdod polisi pysgodfeydd, gan gynnwys gweithdrefnau asesu effaith. Bydd awdurdodau polisi pysgodfeydd hefyd yn profi unrhyw newid arfaethedig i bolisïau yn erbyn gofynion y rheoliadau perthnasol fel sy'n briodol. Yn dilyn dynodi safle, bydd asesiadau effaith yn cael eu hystyried ymhellach wrth gyflwyno mesurau rheoli statudol. Bydd y rhain yn cael eu datblygu gan yr awdurdod pysgodfeydd cenedlaethol perthnasol, yn hytrach nag ar lefel y DU.

Mae Adran **4.2.11 Sbwriel Môr** yn amlinellu ymrwymiad yr awdurdodau polisi pysgodfeydd i weithio gyda diwydiant i leihau ei effaith amgylcheddol a chefnogi mentrau eraill i leihau sbwriel môr. Er bod gwaith i leihau sbwriel môr eisoes yn cael ei gynnal, gallai polisïau eraill sy'n cael eu hystyried i gyflawni'r ymrwymiad hwn gael effaith economaidd ar fusnes. Gallai effeithiau o'r fath gynnwys costau gweithredu, materol ac ymgyfarwyddo. Fodd bynnag, bydd yr effeithiau'n dibynnu ar natur y polisïau pellach a ddatblygir. Serch hynny, rhagwelir y bydd gweithredu polisïau i gyflawni'r ymrwymiad hwn yn cael effaith fuddiol ar yr amgylchedd – er enghraifft, drwy wella'r ffordd mae offer pysgota yn cael ei reoli ar ddiwedd ei oes. Gallai hyn gynnwys rhoi cymhellion ar gyfer casglu ac ailgylchu offer ar ddiwedd ei oes a gwella arferion rheoli gwastraff.



Bydd yr holl gynigion newydd yn cael eu profi'n drylwyr, gan gynnwys drwy ymgynghori lle bo angen yn unol â gweithdrefnau'r awdurdod polisi pysgodfeydd unigol, i sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniad polisi arfaethedig ac yn cydymffurfio â'r holl bolisiau trawsbynciol a dyletswyddau statudol, gan gynnwys gweithdrefnau asesu effaith. Bydd awdurdodau polisi pysgodfeydd hefyd yn profi unrhyw newidiadau arfaethedig i bolisiau yn erbyn gofynion y rheoliadau perthnasol, fel sy'n briodol.

Mae Adran **4.2.12 Dyfroedd Arfordirol a Dyfroedd Croyw** yn amlinellu natur hanfodol cynefinoedd ac afonydd arfordirol iach i amgylchedd morol iach a physgodfeydd ffyniannus. Bydd gweithredu'r JFS yn llwyddiannus yn cefnogi Strategaeth Forol y DU (UKMS) i sicrhau Statws Amgylcheddol Da ym moroedd y DU, drwy sicrhau bod y stociau pysgod sy'n cael eu cynaeafu yn aros o dan y Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf (MSY); bod stociau pysgod a gweithgareddau pysgodfeydd yn cael eu rheoli i sicrhau bod unrhyw effeithiau negyddol ar ecosystemau morol yn cael eu lleihau a, lle bo modd, yn cael eu gwrthdroi (gan gynnwys difrod i wely'r môr, pwysau niweidiol ar rywogaethau sy'n agored i niwed a sbwriel môr); a bod dalfeydd o rywogaethau pysgod na fwriedir eu dal yn cael eu hosgoi neu eu lleihau. Bydd yn cefnogi ymhellach weithgareddau dan gonfensiwn OSPAR i sicrhau Statws Amgylcheddol Da yng Ngogledd-ddwyrain yr Iwerydd, drwy leihau effaith niweidiol gweithgareddau pysgota a dyframaethu ar yr hinsawdd a chefnogi'r broses o ymaddasu i newid yn yr hinsawdd o fewn y sector pysgota a'r sector dyframaethu. Bydd cyflwr stociau pysgod masnachol y DU a dangosyddion ar gyfer iechyd bioamrywiaeth a sbwriel môr yn cael eu monitro a'u hasesu fel rhan o'r cylch chwe blynedd ar gyfer diweddarau'r UKMS ac asesiadau OSPAR. Bydd yr holl gynigion newydd yn cael eu profi'n drylwyr, gan gynnwys drwy ymgynghori lle bo angen yn unol â gweithdrefnau'r awdurdod polisi pysgodfeydd unigol, i sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniad polisi arfaethedig ac yn cydymffurfio â'r holl bolisiau trawsbynciol a dyletswyddau statudol, gan gynnwys gweithdrefnau asesu effaith. Bydd awdurdodau polisi pysgodfeydd hefyd yn profi unrhyw newid arfaethedig i bolisiau yn erbyn gofynion y rheoliadau perthnasol fel sy'n briodol.

Mae Adran **4.2.13 Newid Hinsawdd** yn cynnwys ymrwymiad i nodi newidiadau ymarferol i dechnolegol, ymddygiad a rheoli er mwyn lliniaru a lleihau allyriadau ar draws cadwyn gyflenwi pysgodfeydd, er mwyn symud tuag at ddyfodol allyriadau carbon sero-net. Wrth i effeithiau niweidiol gweithgareddau pysgota a dyframaethu ar yr hinsawdd gael eu lleihau, mae'n bosibl yr effeithir ar amryw sectorau o fewn cadwyn cyflenwi pysgodfeydd. Gall symud tuag at ddatgarboneiddio'r fflyd bysgota a diogelu ardaloedd dal a storio carbon effeithio ar y rhannau hynny o'r gadwyn gyflenwi sy'n arbennig o ddwys o ran carbon neu sy'n dibynnu ar ardaloedd penodol o ddyfroedd y DU. Fodd bynnag, gall canlyniadau polisiau ddarparu manteision amgylcheddol a chymdeithasol, gan gydnabod y bydd lliniaru prosesau carbon-ddwys yng nghadwyn gyflenwi'r sector bwyd môr hefyd yn cynnwys lleihau crafu ar wely'r môr, a fydd yn arwain at ragor o garbon yn cael ei storio. Bydd yr holl bolisiau newydd yn cael eu profi'n drylwyr, gan gynnwys drwy ymgynghori lle bo angen yn unol â gweithdrefnau'r awdurdod polisi pysgodfeydd unigol, i sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniad polisi arfaethedig ac yn cydymffurfio â'r holl bolisiau trawsbynciol a dyletswyddau statudol, gan gynnwys gweithdrefnau asesu effaith. Bydd awdurdodau polisi pysgodfeydd hefyd yn profi unrhyw newidiadau arfaethedig i bolisiau yn erbyn gofynion y rheoliadau perthnasol fel sy'n briodol.

Mae Adran **4.2.14 Dyframaethu** yn ailadrodd ymrwymiad pob awdurdod polisi pysgodfeydd i gefnogi twf cytbwys cynaliadwy, o dan arweiniad y diwydiant, ym mhob is-sector dyframaethu yn seiliedig ar y wyddoniaeth orau sydd ar gael. Mae hyn yn parhau â'r arferion presennol ac, o'r herwydd, mae'n ceisio sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng cefnogi gweithgareddau cymdeithasol ac economaidd a diogelu'r amgylchedd morol. Bydd unrhyw gynigion polisi newydd ar gyfer dyframaethu'n cael eu profi'n drylwyr, gan gynnwys drwy ymgynghori lle bo angen yn unol â gweithdrefnau'r awdurdod polisi pysgodfeydd unigol, i sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniad polisi arfaethedig ac yn cydymffurfio â'r holl bolisiau trawsbynciol a dyletswyddau statudol, gan gynnwys gweithdrefnau asesu effaith. Bydd awdurdodau polisi

pysgodfeydd hefyd yn profi unrhyw newidiadau arfaethedig i bolisïau yn erbyn gofynion y rheoliadau perthnasol fel sy'n briodol. At hynny, bydd datblygiad dyframaethu sy'n benodol i safle yn ddarostyngedig i systemau trwyddedu morol a chynllunio tir presennol, fel sy'n briodol, ac yn dibynnu ar natur y datblygu, bydd asesiadau'n yn cael eu cwblhau cyn awdurdodi unrhyw ffermydd arfaethedig.

Mae'r awdurdodau polisi pysgodfeydd eisoes wedi ymrwmo i sicrhau bod pysgota hamdden yn y môr yn gynaliadwy o safbwynt yr amgylchedd, y gymdeithas a'r economi fel yr amlinellir yn **4.2.15 Pysgota Hamdden yn y Môr**. O ystyried bod hyn yn parhau â pholisi presennol, nid oes angen asesiad arall o'r effaith.

Mae Adran **4.2.16 Cynhyrchu, Marchnata a Bwyta Bwyd Môr** yn ailddatgan ymrwymiad yr awdurdodau polisi pysgodfeydd i hwyluso sector bwyd môr a chymunedau arfordirol hyblyg a chynaliadwy. Gallai effeithiau'r ymrwymiad parhaus hwn ddeillio o fesurau gweithredu polisi fel systemau olrhain cadarn, mynediad i farchnadoedd a gweithgareddau pysgota cynaliadwy, a gallai'r mesurau hyn gael effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar y sector neu ar y cyhoedd. Bydd unrhyw bolisïau pellach yn cael eu datblygu gan yr awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol unigol, bydd eu heffaith yn cael ei hasesu yn unol â'u prosesau, a bydd pob cynnig newydd yn cael ei brofi'n drylwyr, gan gynnwys drwy ymgynghori lle bo angen yn unol â gweithdrefnau'r awdurdod polisi pysgodfeydd unigol, i sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniad polisi arfaethedig ac yn cydymffurfio â'r holl bolisïau trawsbynciol a dyletswyddau statudol, gan gynnwys gweithdrefnau asesu effaith. Bydd awdurdodau polisi pysgodfeydd hefyd yn profi unrhyw newidiadau arfaethedig i bolisïau yn erbyn gofynion y rheoliadau perthnasol fel sy'n briodol.

Mae'r JFS drafft yn sefydlu polisiau'r Cynllun Rheoli Pysgodfeydd (**5. Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd**) y bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn eu dilyn. Mae'r JFS drafft yn gosod ymrwymiad i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor ein stociau pysgod drwy Gynlluniau Rheoli Pysgodfeydd. Rhaid i gynlluniau nodi digon o dystiolaeth a manylion i ddangos sut mae'r dull rhagofalus wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer pob stoc pysgod.

O ystyried natur y polisi, bydd Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd yn cael effaith gadarnhaol, gan wella'r gweithdrefnau presennol a chyfrannu at yr amcanion yn y Ddeddf ar gyfer pysgodfeydd drwy gynnig y cyfle i gynllunio dulliau pwrpasol, hyblyg a thryloyw. Gwneir hyn ar y lefel fwyaf priodol ar gyfer rheoli ymarferol a theilwra cynlluniau i rywogaethau, lleoliadau a gweithgareddau pysgota. Gall yr heriau gynnwys cael y cydbwysedd cywir wrth gynaeafu mewn modd cynaliadwy, gan ystyried manteision cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ac amgylchiadau lleol neu ranbarthol penodol.

Fel rhan o'r gwaith o'u datblygu, bydd holl effeithiau Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd yn cael eu hasesu yn unol â gofynion yr awdurdod polisi pysgodfeydd unigol ar gyfer asesu effeithiau. Byddant yn cael eu profi'n drylwyr, gan gynnwys drwy ymgynghori, i sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniad polisi arfaethedig ac yn cydymffurfio â'r holl bolisïau trawsbynciol a dyletswyddau statudol, gan gynnwys gweithdrefnau asesu effaith. Yn benodol, bydd awdurdodau polisi pysgodfeydd hefyd yn profi unrhyw newidiadau arfaethedig i bolisïau yn erbyn gofynion y rheoliadau perthnasol fel sy'n briodol.

### **Adran 3: Asesiadau Effaith gan yr Awdurdodau Pysgodfeydd Cenedlaethol**

Mae'r adran hon yn amlinellu arferion asesu a phrosesau gofynnol yr awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol. Wrth ddatblygu'r ymrwymadau yn y JFS, bydd pob awdurdod pysgodfeydd

cededlaethol yn asesu polisïau newydd a'u effeithiau yn unol â'r gofynion unigol a amlinellir isod.

## **Gogledd Iwerddon**

Mae Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi ymrwymo i ddatblygu polisïau a fydd yn diwallu anghenion penodol ei dinasyddion ac yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w bywydau.

Rhaid i adrannau Gogledd Iwerddon gydymffurfio â nifer o rwymedigaethau statudol wrth ddatblygu'r polisïau hynny.

Mae Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus, wrth gyflawni eu swyddogaethau sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon, roi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng:

- personau o wahanol gredoau, crefyddau, barn wleidyddol, grwpiau hil, grwpiau oedran;
- statws priodasol, neu gyfeiriadedd rhywiol;
- dynion a menywod yn gyffredinol;
- personau ag anabledd a phersonau heb anabledd;
- personau â dibynyddion (h.y. pobl â chyfrifoldebau gofalu) a phersonau heb ddibynyddion.

Heb amharu ar y rhwymedigaeth uchod, mae'n ofynnol hefyd i awdurdodau cyhoeddus, wrth gyflawni eu swyddogaethau sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon, roi sylw i ba mor ddymunol yw hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pobl o wahanol gredoau, grefyddau, barn wleidyddol neu grwpiau hil.

Mae Deddf Gogledd Iwerddon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus baratoi Cynlluniau Cydraddoldeb sy'n nodi sut y maent yn bwriadu cyflawni'r dyletswyddau hyn. Craidd yr holl Gynlluniau, o ran y ddyletswydd i roi sylw dyledus i hyrwyddo cyfle cyfartal ac mewn perthynas â hyrwyddo cysylltiadau, yw Asesiadau Effaith o Bolisïau ar Gydraddoldeb. Fodd bynnag, nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob polisi. Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer polisi os yw'r polisi wedi cael ei sgrinio yn hyn o berth yn gynnar yn y gwaith o'i ddatblygu.

Mae angen profi polisïau hefyd mewn perthynas â Hawliau Dynol, ac mae gofynion yn cael eu cyflwyno naill ai gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon, neu o ganlyniad i rwymedigaethau Llywodraeth y DU neu rwymedigaethau rhyngwladol, ar gyfer asesiadau o'r effaith amgylcheddol, gwledig, rheoleiddio, cynaliadwyedd ac iechyd. Er enghraifft, mae Strategaeth Rheoleiddio Gwell Gogledd Iwerddon yn ei gwneud yn ofynnol i bob adran ystyried Asesiad Effaith Rheoleiddiol fel rhan o'u proses datblygu polisïau.

Mae Deddf Anghenion Gwledig (Gogledd Iwerddon) 2016 yn gosod dyletswydd ar adrannau Gogledd Iwerddon i roi sylw dyledus i anghenion gwledig wrth ddatblygu, mabwysiadu, gweithredu neu ddiwygio polisïau, strategaethau a chynlluniau. Mae hyn yn sicrhau bod adrannau'n rhoi sylw dyledus i anghenion cymdeithasol ac economaidd pobl mewn ardaloedd gwledig wrth ymgymryd â rhai gweithgareddau. Mae'n darparu mecanwaith ar gyfer sicrhau rhagor o dryloywder o ran sut mae adrannau'n ystyried anghenion gwledig wrth ymgymryd â'r gweithgareddau hynny.

Yn ogystal, byddai'r angen am Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol yn cael ei ystyried, lle bo hynny'n briodol, yn ystod y broses o ddatblygu polisïau.

## Yr Alban

Mae Llywodraeth yr Alban wedi ymrwymo i ddatblygu polisiau sy'n sicrhau canlyniadau mwy cyfartal a chynaliadwy i bobl yn yr Alban. O ystyried natur ddatganoledig polisiau pysgodfeydd, mae Llywodraeth yr Alban wedi ymrwymo i adolygu'r angen am asesu effaith ar y lefel ddatganoledig yn unol â'r arferion presennol. Mae gan Lywodraeth yr Alban broses ar waith ar gyfer penderfynu a oes angen asesiadau effaith penodol, a byddant yn dilyn y broses hon pan fydd polisiau'r JFS yn cael eu datblygu ymhellach a'u cyflwyno ar lefel ddatganoledig fel yr amlinellir uchod. Gall hyn gynnwys asesiad o'r effaith amgylcheddol, effaith busnes a rheoleiddiol, yr effaith ar gymunedau'r ynysoedd ac asesiadau o effeithiau eraill y byddai eu hangen yn ôl y math o bolisi sy'n cael ei gyflawni.

Mae gan Lywodraeth yr Alban ddull sefydledig ar gyfer asesu effaith:

Mae Deddf Asesu Amgylcheddol (Yr Alban) 2005 yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n paratoi cynlluniau a rhaglenni yn yr Alban gynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol os ydynt yn debygol o gael effeithiau amgylcheddol sylweddol. Mae'n ofynnol i'r cynlluniau a'r rhaglenni hynny sy'n ymwneud â'r Alban yn unig, boed hynny yr Alban gyfan neu ran ohoni, ystyried a fyddai Deddf 2005 yn berthnasol a chynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol yn unol â'r gofynion a amlinellir yn y Ddeddf os oes angen gwneud hynny.

Mae Asesiad Effaith Busnes a Rheoleiddiol (BRIA) yn edrych ar gostau tebygol unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth arfaethedig. Maent hefyd yn ymdrin â rheoleiddio gwirfoddol, codau ymarfer, canllawiau, neu newidiadau i bolisiau a allai effeithio ar y sector cyhoeddus, y sector preifat neu'r trydydd sector. Mae'r BRIA yn amlinellu pam mae'r Llywodraeth yn bwriadu ymyrryd; opsiynau y mae'r Llywodraeth yn eu hystyried a'r opsiwn a ffeirir; sut ac i ba raddau y gallai polisiau newydd effeithio arnyn nhw, ar fusnesau ac ar gystadleurwydd yr Alban; ac amcangyfrifon o gostau a manteision y mesurau arfaethedig.

Bwriad Asesiad o'r Effaith ar Gymunedau'r Ynysoedd (ICIA) yw profi unrhyw bolisi, strategaeth neu wasanaeth newydd sy'n debygol o gael effaith ar gymuned yn yr ynysoedd sy'n wahanol iawn i'r effaith mae'n ei chael ar gymunedau eraill, gan gynnwys cymunedau eraill yn yr ynysoedd. Mae hon yn ddyletswydd gyfreithiol wrth ddatblygu polisiau yn yr Alban o dan adran 8 o Ddeddf Ynysoedd (Yr Alban) 2018.

Fel Awdurdodau Polisi Pysgodfeydd eraill, mae Llywodraeth yr Alban wedi'i rhwymo o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU (UKGDPR) i gynnal asesiad o'r effaith ar ddiogelu data (DPIA) ar gyfer pob prosiect sy'n prosesu data personol y mae asesiad wedi dangos ei fod yn risg uchel. Fodd bynnag, polisi Llywodraeth yr Alban yw cwblhau DPIA ar gyfer pob prosiect sy'n ymwneud â data personol a phreifatrwydd gan yr ystyrir mai dyma'r arfer gorau.

Yn yr un modd ag awdurdodau polisi pysgodfeydd eraill, mae'n ofynnol i Lywodraeth yr Alban ystyried yr angen am Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wrth lunio polisiau yn yr Alban. Bwriedir i hwn nodi a gwarchod rhag risgiau posibl o wahaniaethu a helpu i ddatblygu polisiau gwell.

Bydd y gofynion posibl ar gyfer asesiadau effaith eraill a gynhelir gan Lywodraeth yr Alban, fel Dyletswydd yr Alban Decach, asesu'r effaith ar hawliau a lles plant, hawliau dynol a diogelu deddfwriaeth at y dyfodol yn cael eu hasesu gan Lywodraeth yr Alban yn unol â'r arferion presennol.

## Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu polisiâu sy'n sicrhau canlyniadau mwy cyfartal a chynaliadwy i bobl yng Nghymru. Mae bron pob polisi pysgodfeydd wedi cael ei ddatganoli, ac mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod rhan hanfodol o adeiladu achos cynhwysfawr a chytbwys dros bolisi yw arfarnu'r effeithiau mae'r polisi yn debygol o'u cael, yn gadarnhaol ac yn negyddol. Felly, cynhelir asesiadau effaith trylwyr wrth ddatblygu ein polisiâu, y polisiâu presennol a'r rhai y gallwn eu datblygu a'u gweithredu yn y dyfodol. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn darparu fframwaith ar gyfer ein dull o ymdrin ag asesiadau effaith o fewn y saith Nod Llesiant a'r Pum Ffordd o Weithio, gan sicrhau dull o lunio polisiâu integredig sy'n seiliedig ar synnwyr cyffredin.

Ym mhob maes polisi yn y JFS lle bydd dulliau datganoledig yn cael eu gweithredu yn y dyfodol, a bod angen datblygu polisiâu ymhellach, bydd yr asesiadau effaith angenrheidiol yn cael eu cynnal yn unol ag arferion safonol Llywodraeth Cymru. O'r cychwyn cyntaf, bydd Asesiad Effaith Integredig yn cael ei ddatblygu i'n helpu i gynnal asesiad cyflawn o effaith cam gweithredu arfaethedig, gyda'r nod o gynyddu lles economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol cymaint ag y bo modd, nid yn unig yn yr oes sydd ohoni, ond yn y tymor hir. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 hefyd yn nodi blaenoriaethau cenedlaethol y mae'n rhaid eu hystyried fel rhan o'r broses ar gyfer Asesiadau Effaith Integredig wrth lunio polisiâu newydd.

Yn ogystal, bydd yr angen am Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol hefyd yn cael ei ystyried wrth ddatblygu polisiâu.

Os bydd polisi newydd yn arwain at gyflwyno is-ddeddfwriaeth, byddwn yn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â gofynion Cod Asesu Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer Is-ddeddfwriaeth.

## Lloegr

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i werthuso'r angen i asesu'r effaith a datblygu polisiâu yn unol â'r gofynion a'r arferion gorau ar gyfer asesu. Bydd y prosesau asesu hyn yn cael eu dilyn wrth ddatblygu'r polisiâu sy'n deillio o'r JFS, a bydd yr asesiadau a gynhelir yn dibynnu ar y polisi unigol sy'n cael ei gyflwyno.

Wrth lunio polisiâu ac ystyried a oes angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ystyrir Canllawiau'r Fframwaith Rheoleiddio Gwell a'r egwyddorion gwell ar gyfer rheoleiddio, sef tystiolaeth gadarn, tryloywder a chymesuredd. Pan ystyrir bod polisiâu'n ddarpariaethau statudol, mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael ei gynnal a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Polisi Rheoleiddiol (RPC) er mwyn sicrhau proses graffu annibynnol cyn cyflwyno unrhyw is-ddeddfwriaeth ar gyfer pob mesur y mae'r gost net i fusnesau'n uwch na'r trothwy o £5 miliwn y flwyddyn. Cynhyrchir dadansoddiadau i gefnogi'r newidiadau hyn yn unol â methodoleg Llyfr Gwyrdd Trysorlys Ei Mawrhydi, ac mae'n cynnwys ystyried yr effaith ar fusnesau bach a micro.<sup>1</sup> Nid oes angen hyn ar gyfer mesurau sy'n is na'r trothwy ar gyfer costau uniongyrchol net i fusnesau o £5 miliwn y flwyddyn. Ar gyfer mesurau sy'n is na'r trothwy hwn bydd DEFRA yn cynhyrchu asesiadau rheoleiddiol o'r costau os yw hynny'n briodol.

Yn ogystal, byddai'r angen am Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol yn cael ei ystyried, lle bo hynny'n briodol, yn ystod y broses o ddatblygu polisiâu. Mae deddfwriaeth a gofynion rheoliadau eraill yn nodi rhai amgylchiadau lle mae'n rhaid cynnal asesiadau pellach. Er enghraifft, mae Adran 126 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009) yn gosod dyletswyddau penodol ar yr Sefydliad Rheoli Morol mewn perthynas â Pharthau

<sup>1</sup> Yn unol â chanllawiau'r RPC ar Asesiadau ar gyfer Busnesau Bach a Micro: <https://www.gov.uk/government/publications/small-and-micro-business-assessment-samba-guidance>

Cadwraeth Morol a gwneud penderfyniadau ynghylch trwyddedau morol, a lle bo hynny'n briodol, cynhelir proses asesu Parth Cadwraeth Morol yn ystod y gweithdrefnau ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch trwyddedau.

Yn ogystal, mae Deddf yr Amgylchedd 2021 yn amlinellu'r egwyddorion amgylcheddol o safbwynt y gyfraith, ac yn ei gwneud yn ofynnol cynhyrchu "datganiad polisi ar egwyddorion amgylcheddol" sy'n esbonio sut y dylai'r egwyddorion amgylcheddol gael eu dehongli a'u rhoi ar waith yn gymesur gan Weinidogion y Goron wrth lunio polisi. Disgwylir i'r ddyletswydd hon i roi sylw i'r egwyddorion amgylcheddol dod i rym yn 2023 o fewn blwyddyn gyntaf cyhoeddi'r JFS. Y pum egwyddor amgylcheddol yw'r egwyddorion integreiddio, atal, unioni, y llygrwr sy'n talu a rhagofal.

Mae dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus, wrth gyflawni eu swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r angen i gyflawni'r amcanion a amlinellir o dan adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Nid yw'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol yn nodi yn benodol sut y dylai awdurdodau cyhoeddus ddadansoddi effaith eu polisiau a'u harferion presennol a newydd ar gydraddoldeb, ond mae gwneud hynny'n rhan bwysig o gydymffurfio â'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol, a gwneir hyn fel sy'n briodol.

## **Adran 4: Llywodraethu a Gwerthuso**

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau polisi pysgodfeydd adolygu'r JFS pryd bynnag y maent yn credu ei bod yn briodol gwneud hynny, ac o fewn chwe blynedd i'w gyhoeddi neu'r tro diwethaf iddo gael ei adolygu beth bynnag. I ddechrau, bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn defnyddio ffynonellau data sy'n bodoli eisoes er mwyn monitro iechyd stociau pysgod gwyllt, a'r data economaidd-gymdeithasol cynhwysfawr a gesglir ar faint a chyfansoddiad fflyd y DU fel dangosyddion. Bydd awdurdodau polisi pysgodfeydd hefyd yn defnyddio dangosyddion a rhaglenni monitro perthnasol yr UKMS. Os bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd, yn dilyn adolygiad, yn dod i'r casgliad bod angen newidiadau i'r JFS, rhaid iddynt baratoi a chyhoeddi JFS diwygiedig neu JFS newydd. Cynhelir adolygiad o'r Asesiad Effaith naratif hwn ar yr un pryd a chaiff ei ddiweddarau neu ei ddisodli yn unol â hynny.

Yn ogystal â'r cylch adolygu, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod polisi pysgodfeydd, gan weithredu ar y cyd, baratoi a chyhoeddi adroddiad bob tair blynedd, ar y graddau y mae'r polisiau a amlinellir yn y JFS wedi cael eu gweithredu, ac wedi cyflawni neu wedi cyfrannu at gyflawni'r amcanion ar gyfer pysgodfeydd.